# Gweithred Gyffredinol 5 Glaswelltir sych lled-naturiol wedi’i amgáu - disgrifiad o gynefin

Mae pedwar prif fath o laswelltir sych heb ei wella yng Nghymru. Mae presenoldeb tri o’r rhain yn dibynnu'n bennaf ar y lefelau asid yn y pridd (pH): glaswelltiroedd sur, glaswelltiroedd niwtral (heb eu gwella) a glaswelltiroedd calchaidd. Mae pedwerydd math prin iawn, glaswelltiroedd metelaidd, i'w cael ar briddoedd sy'n cynnwys llawer o fetelau trwm.

## Glaswelltiroedd sur

Mae glaswelltiroedd sur i'w cael ar briddoedd sur lle mae'r lefelau pH yn is na 5.0. Maent i'w cael yn bennaf mewn porfeydd pori ar ymylon yr ucheldir, ond gallant ddigwydd i lawr i lefel y môr.

Yn y rhan fwyaf o laswelltiroedd sur sych yn yr iseldir, mae glaswelltau meinddail fel peiswellt y defaid a maeswellt cyffredin yn doreithiog. Ymhlith y blodau nodweddiadol mae’r friwydd wen a thresgl y moch. Mae blodau eraill achlysurol i aml yn cynnwys melog y cŵn, fioled gyffredin, clychau'r eos a chribau San Ffraid.



Glaswelltir sur sych gyda briwydd wen toreithiog



Briwydd wen



Tresgl y moch

Ar briddoedd sy'n deneuach neu'n fwy tueddol o sychu, mae suran yr ŷd yn nodweddiadol iawn, ynghyd â mwsoglau a chennau toreithiog.



Glaswelltir sur sy'n dueddol o sychu gyda suran yr ŷd (blodau coch), mwsoglau a chennau toreithiog



Suran yr ŷd

## Glaswelltiroedd niwtral

Mae glaswelltiroedd niwtral i'w cael ar briddoedd nad ydynt yn asidig nac yn alcalïaidd iawn, ond sydd heb lawer o faethynnau yn y pridd fel ffosfforws a nitrogen. Maent i'w gweld ar lethrau gwastad neu â goleddf ysgafn, mewn porfeydd pori yn yr iseldir neu mewn gweirgloddiau.

Mae glaswelltiroedd niwtral fel arfer yn flodeuog iawn gyda sawl rhywogaeth wahanol o laswellt.

Mae glaswelltau cyffredin yn cynnwys: rhonwellt y ci, perwellt y gwanwyn, peiswellt coch a maswellt penwyn

Mae'r planhigion blodeuol yn cynnwys pysen-y-ceirw, y bengaled, meillionen goch, milddail, llyriad yr ais, llygad-llo mawr a rhywogaethau o deulu'r ‘Dant y Llew' fel y melynydd a pheradyl garw. Mae enghreifftiau o weirgloddiau yn aml yn cynnwys y gribell felen ac effros.



Glaswelltir niwtral heb ei wella mewn gweirglodd, gyda meillionen goch, llygad-llo mawr a pheradyl garw (blodau melyn) niferus.



Pysen-y-ceirw



Y bengaled

## Glaswelltir calchaidd

Maent i'w cael ar briddoedd calchaidd sydd â pH uwch na 6.5, yn bennaf yn ardaloedd calchfaen y Gogledd a'r De. Maent i'w cael ar dir gwastad ac ar lethrau serth, fel arfer gyda brigiadau o graig galchfaen, ac yn cael eu pori fel arfer fel porfa.

Mae glaswelltiroedd calchaidd yr iseldir yn flodeuog iawn, gyda'r rhywogaethau mwyaf nodedig yn cynnwys cor-rosyn, teim gwyllt, bwrned, clafrllys bach a'r friwydd felen. Mae'r prif laswelltau yn cynnwys peiswellt y defaid a chrydwellt.



Glaswelltir calchaidd gyda theim gwyllt (blodau porffor) a chor-rosyn (blodau melyn) yn aml, gyda brigiadau creigiog o galchfaen.


Cor-rosyn


Teim gwyllt

## Glaswelltiroedd metelaidd

Mae glaswelltiroedd metelaidd yn brin iawn yng Nghymru, ac fe'u ceir ar briddoedd sy'n cynnwys drwm gan fetelau trwm fel plwm a sinc. Mae gan y ffurf fwyaf nodedig dywodlys y gwanwyn niferus, tra bod ffurfiau eraill yn cynnwys cyfoeth o fwsoglau a chennau.

Maent i'w cael ar safleoedd mwyngloddiau metel segur ac fel arfer yn cael eu pori fel porfa. Maent i'w cael yn yr iseldiroedd a'r ucheldiroedd. Mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd naill ai yn y Gogledd-ddwyrain neu yng Ngheredigion.



Glaswelltiroedd metelaidd gyda thywodlys y gwanwyn (blodau gwyn) a mwsoglau toreithiog